**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH 01.06.26**

**6.1 YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Tegid John (Is-Gadeirydd), Christopher Braithwaite.

**6.2 PRESENNOL**
Cyng. James Maxwell (Cadeirydd), Reg Chapman, Edwina Evans, Wendy Williams, Simon Turner, Giles Bentham, Mark Lewis, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 2 aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn yr ystafell ag 1 aelod o'r Cyngor yn bresennol ar zoom ar gychwyn y cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**
Daeth Ms Paula Ireland i'r cyfarfod i drafod y datblygiadau diweddaraf ynglyn ar rhandiroedd a dywedodd bod y grwp rhandiroedd wedi bod yn llwyddianu gyda'i cais grant rhandiroedd i Gyngor Gwynedd a wedi cael grant o £4,176. Dangosodd gynlluniau o'r gwaith yr oeddynt yn fwriadu ei gario allan ar y safle sef creu llwybr o'r lle parcio ar hyd ochor isa y rhandiroedd draw am y sied. Hefyd datganodd bod yn fwriad gan y grwp osod gwelyau codwyd ar rhandir rhif 8 oherwydd nid oedd unigolion yn awyddus i logi y rhandir hwn a'i llogi allan fesul gwely i pwy bynnag oedd a diddoreb. 'Roedd Aelodau y Cyngor yn cytuno i hyn gael ei wneud. Cytnwyd bod Ms Ireland yn gofyn i Mr. Lee Warwick dorri gwair yn rhan uchaf y safle nes fydd cynlluniau penodol wedi cael eu gwneud ynglyn a defnydd o'r safle hwn a cytunwyd i drefnu cyfarfod safle gyda rhai o Aelodau y Cyngor yn fuan iawn. Cytunwyd i drosglwyddo £150 i gyfrif y grwp rhandiroedd er mwyn iddynt allu archebu nwyddau oedd ei angen arnynt.

**6.3 CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**.
Cafwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-
Bydd yn anfon allan adroddiad drafft ynglyn a bioamrywaeth yn fuan.
Bod yr is-bwyllgor cyllid wedi cyfarfod ar y 27ain o fis diwethaf.
Bod ef ar Cyng. Reg Chapman yn mynd i arwyddo y ddogfen TP1 ynglyn a pryniant tir Pen y Graig yn fuan.
Angen cynnwys y mater ynglyn ag ymgynghoriad gan Cyngor Gwynedd ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd ar agenda mis nesa.
Bod angen cwblhau trosglwyddo enw parth y wefan i Gyngor Cymuned Harlech yn fuan neu fydd rhaid mynd lawr y ffordd o ddatrys anghydfod.

**6.4 COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mai 11eg 2026 fel rhai cywir.

**6.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**
**Item 5.8 (H)** adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol ynglyn a cario allan gwaith ar y goeden ger Tryfan, Bron y Graig a bod ganddynt ddim gwrthwynebiad i'r gwaith ar y goeden gael ei wneud ond byddant yn falch o gael gwybod pan fydd y gwaith yn cael ei gario allan.
**Item 5.8 (H)** adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ateb gan Gyngor Gwynedd ynglyn a gosod croesfan ar ffordd isaf ag ei bod wedi derbyn ateb yn datgan eu bod yn ystod y flwyddyn ariannol hon, wedi blaenoriaethu cyflwyno gwelliannau y tu allan i Ysgol Bethel, Ysgol Maenofferen (Blaenau Ffestiniog), Ysgol Tryfan (Bangor) ac Ysgol Ein Harglwyddes (Bangor) ag y llynedd, cyflwynwyd gwelliannau y tu allan i Ysgol y Faenol ac Ysgol Foel Gron, Mynytho. Hefyd yn datgan bod y cynlluniau yn cael eu ariannu drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru a gan fod Llywodraeth newydd mewn grym bellach, mater iddynt hwy fydd penderfynu ar lefel y cyllid sy'n cael ei gyflwyno i Gynghorau ar gyfer y math hwn o welliannau yn y dyfodol. Maen't yn weddol hyderus y bydd cyfeiriad strategol y Llywodraeth yn parhau'n gyson yn y tymor byr, ac felly y bydd cyfle iddynt barhau i gyflwyno ceisiadau am gyllid i symud eu rhaglen waith yn ei blaen er mwyn gwella Llwybrau Diogel yn eu cymunedau, ac yn sicr, y flwyddyn ariannol nesaf, mi fydd y cynllun hwn yn un o'r cynlluniau hynny o dan ystyried. Nid oedd Aelodau y Cyngor yn hapus gyda'r ymateb hwn
**Item 5.8 (H)** cafwyd wybod bod ddim gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn ynglyn a trosglwyddo gweinyddiaeteh tudalen weblyfr y Cyngor

**6.6 DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.

**6.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – Adroddodd bod y mater o loriau skip yn mynd lawr I maes parcio Min y Don wedi cael ei ddatrys ag ei bod wedi derbyn e-bost gan drigolion Ffordd Glan y Mor yn diolch iddi am ei gwaith gyda'r mater hwn. 'Roedd wedi ymweld a maes parcio Min y Don, ar ol derbyn cwynion, dydd LLun Gwyl y Banc ag wedi cysylltu gyda'r Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd yn gofyn a fyddai modd I Swyddog ymweld ar safle oherwydd bod ceir wedi parcio yn y mannau oedd wedi eu clustnodi ar gyfer bysiau ag oherwydd hyn nid oedd y lori casglu ysbwriel yn gallu cael mynediad ag y canlyniad oedd bod y biniau ysbwriel yn llawn.
'Roedd wedi derbyn llythyr yn ei hysbysu bydd y ffordd ger Stabl Mail, Talsarnau yn cael ei ail wynebu ar gwaith yn chwyn ar y 15ed o'r mis hwn ag yn parhau am pythefnos. Bydd y gwaith yn cael ei gynnal dan system confoi.
Cafwyd yr adroddodd canlynol gan y Cyng. Gwynfor Owen – daeth I mewn I'r cyfarfod pan oedd yr Aelodau wrthi yn trafod item 5.8 (H) ynglyn a cael croesfan ar Ffordd y Morfa a datganodd bod wedi cael Swyddog I ymweld ar ffordd hon a bod Cyngor Gwynedd wedi gweld y cyflymder oedd yn cael ei wneud arni a bod PCSO wedi bod yn monitro'r cyflymder. 'Roedd yn siomedig bod y Cyngor Cymuned wedi gwrthod talu am arwyddion fflachio. Fe longyfarchwyd y Cyng. Simon Turner ar ei waith gyda'r bunting yn y dref ag hefyd estynodd longyfarchiadau I griw Rock Ardudwy a braf oedd gweld yr holl fobl yna, ond yn siomedig y ffordd oedd y pwyllgor wedi cael ei drin gan CADW. 'Roedd wedi anfon at Helen Fychan, Gweinidog Cabinet dros Ddiwylliant a Chwaraeonyn ei gwahodd I'r dref er mwyn iddi gael gweld y problemau oedd y dref yn ei chael gyda CADW. 'Roedd wedi cael gwybod bod rhai wedi parcio gyda carafan yn maes parcio Min y Don er rhai dyddiau a bod Swyddog wedi bod yn ymweld a nhw a wedi rhoid dirwy iddynt. 'Roedd wedi cael ei ethol yn Gadeirydd pwyllgor cyswllt rheilffordd y Cambrian.
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda CADW i ofyn iddynt gysylltu gyda'r gymuned leol fel rhan o gynllun rheolaeth waliau y castell.

**6.8 MATERION YN CODI**

**A Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £14,058.81 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £34,153.69 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2026/27.

**B HAL - CIC**

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman mewn perthynas â'r sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud â HAL -

**Prosiect gwesty Harlech**.

1 Mae cynnydd wedi bod yn araf ac yn rhwystredig o safbwynt HCI CIC. Mae cyfarfod ar-lein wedi cael ei gynnal gyda chynrychiolwyr Cyngor Gwynedd a Croeso Cymru. Roedd Jim Maxwell hefyd yn bresennol i gynrychioli CCH.
2 Canlyniad oedd derbyn cynnig o gymorth gyda thrafodaethau gyda rhanddeiliaid eraill. Cafodd yr erthyglau CIC newydd eu trosglwyddo i Gyngor Gwynedd am wybodaeth. Cawsant eu hysbysu hefyd am y trefniadau rheoli o fewn y Cyngor.
3 Yn dilyn cais am gyfarfod gydag Ysgol Ardudwy rhyw dair wythnos yn ôl, rwy'n dal i aros am ddyddiad ganddynt.
4 Rydym yn aros am gyfarfod pellach gyda Band Arian Harlech.
5 Mae cyfarfod i drafod gwelliannau i gaeau chwarae Brenin Siôr V wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mercher 3 Mehefin 2026.
6 Yn ystod y mis cafwyd 2 dorri i mewn i adeilad y pwll. Gwnaed atgyweiriadau i un drws mynediad ein hunain ac ail-addaswyd y paneli gwydr wrth y fynedfa a'u gosod yn ddiogel, gan ddefnyddio contractwr lleol arbennigol. Cafodd plentyn lleol ei hebrwng oddi wrth yr adeilad a siaradwyd ag ef.

**Prosiectau Eraill**

Mae'r Cadeirydd a minnau, wedi cynnal cyfarfodydd cychwynnol gyda CWMPAS a Dysgu Oedolion Cymru ar y posibiliad o fwy o dai cymunedol sy'n berthnasol i'r angen lleol. Credaf fod cyflwyniad i'r cyngor llawn wedi'i drefnu ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

Cafwyd wybod gan y Cyng. Reg Chapman bod rhai o drigolion ystad dai Castell y Morfa eisiau cael gwared o'r coed pinwydd sydd wedi tyfu ger yr hen bwll nofio a cytunwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda'r Parc Cenedlethol yn gofyn iddynt ddod i gael golwg ar y coed hyn ag iddynt gysylltu gyda'r Cyng. Reg Chapman.

**C <u>Lansio Adduned Un Llais Cymru Ar Cwrteisi a Parch</u>**
'Roedd rhai Aelodau o blaid arwyddo y ddogfen hon a rhai yn erbyn. Cytunwyd i'w rhoid ar agenda mis nesa er mwyn ei drafod ymhellach cyn dod i benderfyniad.

**D <u>Cae Chwarae Brenin Sior a Llyn y Felin</u>**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi gofyn i'r Cyng. Christopher Braithwaite am ddiweddariad ynglyn ag archebu yr offer newydd i gae chwarae Brenin Sior, ond nid oedd wedi cael ateb ganddo.
'Roedd y Cyng. Reg Chapman wedi datgan yn ei adroddiad yn item 6.8 (B) o'r hyn oedd yn digwydd gyda cae chwarae Brenin Sior.

**E <u>Llochesi Bws</u>**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda Rhian Williams o Adran Cludiant, Cyngor Gwynedd yn ei capasiti fel Cynghorydd Gwynedd ynglyn ar mater uchod ag yn gofyn a fyddai yn bosib cael llochesi bws ychwanegol wedi eu gosod yn gwaelod Harlech ar hyd yr A496 sef gyferbyn ar lloches bws presennol sydd wedi ei leoli ger y toiledau cyhoeddus wrth tafarn y Queens ag hefyd un arall wedi ei osod gyferbyn a groesffordd ystâd dai Penyrhwylfa oherwydd mae arwydd i'r bws stopio wedi ei leoli yn y fan yma a mae amryw o drigolion yr ystadai tai sydd yn yr ardal hon yn aros yn y lleoliad hwn am y bws i fynd am Borthmadog. 'Roedd wedi derbyn yr ateb canlynol yn datgan bod lleoliad Bron yr Hwylfa, i lawr fel lleoliad I gael lloches newydd y flwyddyn yma. Ond oes gan y Cyngor Cymuned flaenoriaeth i gael un yn y lleoliadau a nodir yn lle Bron yr Hwylfa iddi adael I'r Adran wybod.
Ar ol trafodaeth cytunwyd I adael Cyngor Gwynedd wybod bod yr Aelodau yn hapus I'r hen loches presennol gael ei amnewid am un newydd eleni a hefyd gofyn a oedd unrhyw gynlluniau ganddynt I osod llochesi yn y safleoedd eraill oedd y Cyngor Cymuned wedi ei nodi.

**F <u>Ethol Cynghorydd</u>**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael gwybod gan y Swyddog Etholiadol yn Gaernarfon bydd y papurau angenrheidiol yn cael eu dosbarthu diwedd mis yma.

**G <u>Materion a Gynigir</u>**
Aeth y Cadeirydd o amgylch y bwrdd gan ofyn i bob Aelod beth oeddynt eisiau ei gynnwys yn yr agenda yn y dyfodol ag fe gafwyd yr ymatebion canlynol –
Eisiau trafod Ardal Ni.
Parc Bron y Graig.
Eisiau i aelodau o bob is-bwyllgor ddod i gyfarfod nesa y Cyngor gyda enw Cadeirydd eu is-bwyllgor.
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn gofyn pryd gafodd y stryd fawr ei glanhau diwethaf ag hefyd beth yw y sefyllfa cyfreithiol gyda rhai yn byw mewn safle busnes ond ddim yn rhedeg busnes yna.

**6.9 <u>CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**
Ddim wedi dod I law ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**<u>6.10 ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL</u>**
Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £64,783.36 yn y cyfrif rhedegol a £85,980.84 yn y cyfrif cadw.

**<u>Taliadau yn ystod y mis</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Mr. G. J. Williams | - £368.00 | – torri gwair cae peldroed a cae chwarae Brenin Sior |
| Mr. Meirion Griffith | - £210.00 | - torri gwair y fynwent gyhoeddus |
| Mr. Meirion Griffith | - £105.00 | - torri gwair amrywiol lefydd |
| Mr. Meirion Griffith | - £45.00 | - torri gwair cae chwarae Llyn y Felin |
| Clear Insurance | - £2,797.32 | – yswiriant y Cyngor am y flwyddyn |
| Grwp Rhandiroedd Harlech | - £150.00 | – rhan o'r gyllid sydd wedi cael ei glustnodi iddynt tuag at archebu nwyddau |

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Wendy Williams a wnaeth y Cyng. Edwina Evans gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**

Delyth Kerr - £40.00 – rhent rhandir rhif 12
Lee Warwick - £60.00 – rhent rhandir rhif 13 a 14
Gareth Jones - £20.00 – rhent rhandir rhif11 (b)
Dan Watts - £25.00 – rhent rhandir rhif 6

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Catrin Soraya Williams – Dim - gwasanaeth cyfieithu

**6.11 GOHEBIAETH**

**A Cyngor Gwynedd – Adran Economi**

Wedi derbyn e-bost gan yr Adran uchod ynglyn ag hysbysiad ffurfiol o ymgynghoriad gan Cyngor Gwynedd ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd a mae manylion pellach am yr ymgynghoriad ar gael yma: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dweud-eich-Dweud/Ymgynghoriadau-Byw/Ymgynghoriad-Ardoll-Ymwelwyr-Gwynedd.aspx. ' Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen I bob Aelod yn barod. Cytunwyd ei gynnwys ar agenda cyfarfod nesa y Cyngor.

**B Mr. Joe Patton**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn datgan ei fod wedi darllen y cyfarwyddiadau ymuno i fynychu cwrs RoSPA 'Archwiliad Rheolaidd y Cwrt Chwarae' ar yr 16eg o Fehefin yn Nhelford i ddod yn gymwys i gynnal archwiliadau rheolaidd o barciau chwarae Brenin Sior V a Llyn y Felin.
Pan ofynodd y Cyng. Chapman i mi ymgymryd â'r rôl hon, cyflwynwyd sôn am iawndal; rwyf am ei gwneud yn glir nad yw'n gyfforddus gennyf geisio iawndal ariannol am waith sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â Iechyd a Diogelwch ein cymuned. Mae hon bob amser wedi bod yn fy agwedd, a darlunir hyn yn yr adolygiadau iechyd a diogelwch gwirfoddol a berfformiais yn flaenorol yn yr Hen Llyfrgell ar Neuadd Goffa.
Mae fy mharodrwydd i deithio i Delford ar gyfer gweithdy llawn diwrnod RoSPA, ac i gynnal archwiliadau rheolaidd o o'r parciau chwarae ar ôl hynny, yn deillio o awydd gwirioneddol i helpu i warchod plant ein cymuned a'r ymwelwyr sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn. I mi, hwn yw cyfraniad gwirfoddol i les cymunedol, nid yw'n gyfrifoldeb yr hoffwn ei gael ei dalu amdano. Ar wahân i hynny, a gaf i ofyn am gefnogaeth lawn y Cyngor Cymuned i sicrhau bod fy arolygon rheolaidd o'r llwyfan chwarae yn y dyfodol - rhan hanfodol o ddyletswydd gofal y Cyngor - yn cael eu gweithredu'n brydlon ac yn effeithiol. Rhaid i leoedd cyhoeddus, yn enwedig y rhai a ddefnyddir gan blant, fod yn ddiogel, cydymffurfio, ac wedi'u cynnal yn iawn. Heb weithredu mewn pryd ar ganfyddiadau arolygu, mae'r broses yn peryglu dod yn ffurfwaith gweithdrefnol yn hytrach na diogelwr ystyrlon ar gyfer y gymuned.
Ar bwnc ar wahân, siaradodd y Cyng. Maxwell â mi ddechrau mis Mawrth i ofyn a fyddwn yn barod i fod yn ymddiriedolwr ar gyfer Elusen parc chwarae Brenin Sior V, a sefydlodd y Cyngor Cymuned rai blynyddoedd yn ôl. Cytunais yn egwyddorol, ar y sail y gallwn gyfrannu at wella hygyrchedd i'r maes ac at y gweithgareddau y mae'n eu cynnig i bobl o bob oed gyda anableddau. Mae hyn yn faes yr wyf wedi bod yn ymroddedig iddo am ddegawdau, trwy gefnogaeth hirhoedlog i Hospis Plant Ty Gobaith a sawl blwyddyn cymryd rhan mewn clwb beicio addasol yn Nolgellau. Ers rhoi'r gorau i'r rôl honno, rwyf wedi parhau i eirioli dros fentrau hygyrch yn lleol, gan gynnwys y llwybr i gerddi ffrwythau Cymreig a'r santwariaeth synhwyraidd a fydd yn agor yn ardd gymunedol KGV ddiwedd mis Mehefin. Mae hi bellach wedi bod dau fis ers y sgwrs honno gyda'r Cyng. Maxwell, ac nid oes unrhyw gynnydd wedi ei wneud i'm cofrestru fel ymddiriedolwr - rôl a fyddai'n rhoi llwyfan i mi geisio cyllid grant ar gyfer mentrau pellach i gefnogi defnydd cynhwysol o barc chwarae Brenin Sior V. Felly byddwn yn ddiolchgar am gefnogaeth y Cyngor Cymuned wrth ffurfioli fy apwyntiad fel ymddiriedolwr o Elusen parc chwarae Brenin Sior V Harlech, fel y gallaf helpu i ddenu cyllid i wneud ein cae chwarae yn lle lle mae gan blant ac oedolion o bob gallu gyfleoedd cyfartal i fwynhau chwarae, ymlacio, a chwaraeon.

**C Mr Gordon Howie**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu yr Aelodau ei fod yn ymddeol o fod yn Gynghorydd ar Gyngor Cymuned Harlech. Cytunwyd i anfon hwn ymlaen at y Swyddog Etholiadol yn Gaernarfon.

**D Clear Insurance**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda cwmni yswiriant y Cyngor ynglyn a cael ychwanegu seiber clir at y polisi yswiriant ag ei bod wedi cael ateb ganddynt yn datgan bod eu premiwm lleiaf ar gyfer y polisïau seiber yn £420.25 (yn dibynnu ar incwm blynyddol). Cytunwyd i ofyn iddynt gynnwys hyn yn y polisi yswiriant.

**ARWYDDWYD..............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD......................................................** 894